

Dyled a'r pandemig

Crynodeb o'r ymgysylltiad

Dydd Mercher, 20 Hydref 2021

Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ddyled a'r pandemig, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

Trefnwyd cyfres o bedwar grŵp ffocws ar-lein i gasglu barn cyngorwyr dyled a staff undebau credyd yng Nghymru yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws ar-lein hyn ar Microsoft Teams rhwng dydd Mercher 6 a dydd Gwener 8 Hydref 2021.

Roedd y grwpiau ffocws ar-lein yn cynnwys cyfanswm o 14 o gyfranogwyr o Aberconwy, Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg, ac roedd llawer yn rhoi cyngor ledled Cymru a thros y ffin. Roedd y cyfranogwyr yn amrywio o ran lefel eu swydd o fewn eu sefydliadau, gyda rhai'n gyfrifol am ddarparu cyngor ar ddyledion yn uniongyrchol, ac eraill mewn rolau rheoli (neu gyfwerth).

Daethpwyd o hyd i'r cyfranogwyr drwy nifer o randdeiliaid allweddol yn y sector gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, StepChange ac Undebau Credyd Cymru.

Fformat

Roedd fformat yr ymgysylltu yn gymaradwy i raddau helaeth rhwng sesiynau, ond gydag ychydig o amrywiaeth i ddiwallu anghenion cyfranogwyr ac i ddarparu ar gyfer absenoldebau hwyr. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn (gyda rhywfaint o amrywiaeth), ynghyd â rhai cwestiynau atodol er mwyn ceisio cael manylion pellach.



1. Beth fu eich profiad chi o roi cyngor i gleientiaid ar faterion sy'n ymwneud â dyled yn ystod y pandemig?
2. Beth fu effaith y pandemig ar nifer y bobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau?
3. A yw'r achosion yr ydych yn ymdrin â hwy o ganlyniad i'r pandemig yn haws i'w datrys neu'n fwy heriol na'r achosion yr oeddech yn gweithio arnynt cyn y pandemig?
4. Pa mor hawdd fu hi i chi gyfeirio unigolion at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael?
5. Yn eich profiad chi, a yw materion dyled yn ystod y pandemig wedi cael rhagor o effaith ar rai grwpiau penodol o bobl na grwpiau eraill?
6. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y bu dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â dyled yn ystod y pandemig?
7. A ydych o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i gefnogi'r unigolion yr ydych yn rhoi cyngor iddynt? Os felly, ym mha ffordd?
8. Pa heriau y mae'r bobl yr ydych chi'n rhoi cyngor iddynt yn debygol o'u hwynebu dros y misoedd nesaf, a sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i fynd i'r afael â'r rhain?

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn sgil y trafodaethau. Mae nodiadau gair-am-air o bob sesiwn ar gael ar gais.

Galw am gyngor ar ddyledion

Cafwyd trafodaeth gychwynnol ymhlith cyfranogwyr ym mhob cyfarfod grŵp ffocws ynghylch nifer y bobl a oedd wedi manteisio ar gyngor ar ddyledion yn ystod y pandemig. Eglurodd tri o'r pedwar grŵp ffocws eu bod wedi nodi lleihad amlwg yn nifer yr unigolion a oedd yn gofyn am gyngor ar ddyledion pan gyflwynwyd y cyfyngiadau am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2020.

"... roedd lleihad yn y galwad. Roedden ni'n dawel. Dwi ddim yn siŵr pam, ond roedden ni'n dawel. Rwy'n gwybod fy mod i dal yn ei gymharu, ond yr unig flwyddyn arall dwi'n cofio pan yr oedd hi mor dawel â hynny oedd blwyddyn gyntaf y wasgfa gredyd, felly dyna oedd y gymhariaeth agosaf."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

Er bod y cyfranogwyr yn pwysleisio bod y rhesymau a gynigwyd ganddynt am y dirywiad yn ddamcaniaethol, roeddent yn tybio ei fod yn ymddangos eu bod yn cyd-fynd â mentrau a gyflwynwyd i leddfyr'u pwysau ariannol ar lawer o bobl, neu'r agwedd fwy cydymdeimladol gan gredydwyr. Ffyrlo, Lle i Anadlu, y Gronfa Cymorth Dewisol, a seibiannau talu oedd y mentrau y cyfeiriodd cyfranogwyr atynt amlaf.

"Gwelsom nifer y bobl a oedd yn mynd drwy gyngor llawn ar ddyledion, fel yr ydym yn ei alw, yn gostwng gan ddwy ran o dair, drwy gydol 2020 i 2021, o fis Mawrth i fis Mawrth. Yn bersonol, rwy'n teimlo mai'r rheswm dros hyn oedd bod y credydwyr yn gohirio'r broses o weithredu. Cafodd beiliaid eu hatal dros dro, yn ogystal â throi pobl allan. Ond mae pryder gwirioneddol bod y pethau hyn bellach yn dod i ben a bod beiliaid eisoes yn gweithredu . . . ac mae gennym Lle i Anadlu, sy'n rhoi 60 diwrnod iddynt. Ond cyn gynted ag y bydd y 60 diwrnod hynny ar ben, rydym yn wynebu problem enfawr, oherwydd ni fydd gwasanaethau fel ein un ni yn gallu ymdopi."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

"Ar y dechrau, roeddwn i wyneb yn wyneb yn bennaf . . . ac yna gwnaethom newid i gyngor dros y ffôn, cyngor digidol . . . Yna roedd ychydig o oedi. Ond yna roeddwn i'n disgwyl i'r sefyllfa fynd yn wallgof a chael fy llethu gan gleientiaid. Ond fe aeth hi'n dawel, a wn i ddim a oedd hynny oherwydd yr holl wahanol gynlluniau a gyflwynwyd fel ffyrlo. "

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn mai'r rheswm dros y lleihad yn y galw oedd y ffaith bod angen i sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar ddyled addasu'r ffordd yr oeddent yn darparu eu gwasanaethau. Esboniodd eraill fod y cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i'r pandemig yn golygu bod gan rai unigolion ragor o incwm nag y byddai ganddynt o bosibl o dan amgylchiadau arferol.

"Roedd yr effaith ar y cleientiaid presennol, ac roedd rhywfaint o hynny o ganlyniad i'r newid o ran dulliau gweithio, oherwydd roeddem yn wyneb yn wyneb yn bennaf cyn y pandemig. Roedd gennym gleientiaid a roddodd y gorau i gysylltu, a ph'un a oedd hynny o ganlyniad i'r newid o ran dulliau, neu'r ffaith nad oedd credydwyr yn anfon llythyrau atyn nhw mwyach, nid ydym yn gwybod."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 1, Ynys Môn

“Ar ddechrau'r pandemig, roedd gan bobl flaenoriaethau eraill ac roedd cymaint o bethau ar waith fel y seibiannau talu, y gwyliau . . . Felly efallai gyda'r dyledion hanesyddol neu'r dyledion a oedd ganddyn nhw ond nad oedden nhw'n gallu eu talu, roedden nhw'n gallu rheoli pethau yn y ffordd honno.”

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws ar-lein 3, Pen-y-bont ar Ogwr

Ar y llaw arall, roedd y cyfranogwyr yn y pedwerydd o'r gyfres o grwpiau ffocws ar-lein yn gwrthwynebu'r awgrym y bu lleihad yn y galw am gyngor ar ddyledion, a dywedon nhw fod y gwrthwyneb yn wir. Roedd y cyfranogwyr hyn yn gweithio i sefydliad yn Rhondda Cynon Taf.

“Heb os, fe gynyddodd ein galwadau. Talebau bwyd, talebau tanwydd, roeddent yn dod allan o'n clustiau. Nid oes gennym y ffigurau, oherwydd nid dyna yw ein rôl. . . ond yn sicr, nid oedd dim lleihad o gwbl. Roedd nifer y ceisiadau am gyngor yn mynd drwy'r to, oherwydd doedd neb yn gwybod beth oedd yn digwydd.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 3, Rhondda Cynon Taf

“Yn sicr o safbwynt ynni, rwy'n gwybod bod gennym y cynllun talebau tanwydd ond gwelais fy llwyth gwaith yn cynyddu oddeutu 33 y cant . . . yn Rhondda Cynon Taf, ni sydd â'r nifer mwyaf o fesuryddion talu ymlaen llaw y tu allan i Gaerdydd . . . ac yn aml iawn mae'r mesuryddion hynny'n cael eu gosod gan gyflenwyr i adennill dyledion.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 3, Rhondda Cynon Taf

Cyngor hwyr

Er na ellir ei briodoli'n llwyr i'r pandemig, esboniodd cyfranogwyr ym mhob grŵp ffocws ar-lein fod y rhan fwyaf o unigolion yn parhau i ddod atynt am gyngor ar ddyled fel dewis olaf. Roedd cyfeiriadau at gleientiaid sy'n cyrraedd 'pwynt argyfwng' cyn gofyn am gyngor, a'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth pan fydd dyled wedi cronni, yn fynych ar draws yr holl grwpiau ffocws.

“Maen nhw'n ymddwyn fel estrys ac yn ofni gofyn am gyngor proffesiynol.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 3, Merthyr Tudful

“Rydyn ni'n gweld pobl ar y cam diweddaraf, pan maen nhw mewn argyfwng. Mae fel petai nhw'n gadael pethau tan nad oes ganddyn nhw unrhyw opsiwn arall. Yna maen nhw'n dod atom i gael cyngor.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn awyddus i Lywodraeth Cymru gymryd rhan weithredol i hyrwyddo'r fantais o ofyn am gyngor yn gynnar. Bu trafodaeth hefyd mewn un grŵp ffocws, ynghylch pwysigrwydd addysgu pobl yn fwy cyffredinol am lesiant ariannol. Rhoddodd un cyfranogwr enghraifft o nifer yr unigolion y mae wedi'u cynghori sydd wedi hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf yn ystod y pandemig, ond nad oeddent yn ymwybodol bod yn rhaid gwneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor ar wahân.

"Mae'n debyg ein bod ni'n mynd i'w gweld nhw'n rhy hwyr. Maen nhw wedi'u distrywio'n ariannol pan fyddan nhw'n ffonio. Nid ydyn nhw'n estyn allan am help am amser hir, felly rwy'n credu y byddai eu hannog i estyn allan a manteisio ar rywfaint o gyngor cyn eu bod nhw mewn trafferthion, yn hytrach nag oedi a bod ni'n ymateb i'r broblem, yn beth da. Mae angen i ni achub ar y blaen gyda'r bom hwn. Mae'n debyg y bydd gennym rai pobl sydd wedi'u distrywio'n ariannol ymhen blwyddyn neu ddwy pan na fydd ganddyn nhw statws credyd mwyach ac nid ydyn nhw wedi cael swm yr oriau gwaith yr oedden nhw'n eu disgwyl yn ôl, os o gwbl.

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

Addasu gwasanaethau

Esboniodd rhai cyfranogwyr fod yr angen i addasu eu dull o ddarparu gwasanaethau, oherwydd y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, wedi arwain at symleiddio'r broses o ymgysylltu â chleientiaid.

"... o'm rhan i, mae wedi bod yn llawer, llawer gwell i'r gweithwyr achos oherwydd y gwir yw bod cymaint yn rhagor o ddulliau cyfathrebu gennym yn awr o'i gymharu ag o'r blaen... Y gwir amdani yw, drwy gynnig amrywiaeth o o ddulliau i gysylltu, mae ein gallu i ymgysylltu o ran dyled wedi bod yn llawer, llawer gwell yn gyffredinol.

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 1, Ynys Môn

"Erbyn hyn, mae'n haws i'r cleientiaid anfon y wybodaeth hon gyda'r holl gyfryngau gwahanol hyn fel WhatsApp... Pan oeddem ni'n cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb, byddai cleient yn dod atom gyda bag Tesco yn llawn gwaith papur a byddech chi'n llafurio drwy'r gwaith papur gyda nhw. Ond nawr maen nhw'n gallu bod ychydig yn fwy detholus o ran yr hyn maen nhw'n ei anfon, yn hytrach na dim ond rhoi popeth i chi."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 2, Bro Morgannwg

Natur yr ymholiadau am ddyledion

Trafododd pob grŵp ffocws natur yr ymholiadau a gafwyd gan gleientiaid, ac roedd llawer yn esbonio mai costau sefydlog oedd y rhai a wynebwyd amlaf yn ystod y pandemig.

"Rhaid o'r ceisiadau am fenthyciadau a gawsom . . . roedd rhai cyfranogwyr yn sylwi bod llawer rhagor o daliadau i gredydwyd heb eu talu, ac roedd llawer rhagor o ddyfarniadau llys sirol yn ymddangos ar eu hadroddiadau credyd, ond ar yr ochr arall o'r glorian roedd gennydd chi'r bobl a oedd yn gwneud cais yr oedd eu credyd wedi gwella oherwydd roeddent yn buddsoddi mewn . . . ac yn dweud " Wel alla i ddim mynd ar wyliau, felly rwy'n mynd i ddefnyddio'r £500 hwnnw i geisio gostwng rhywfaint o lefel fy nyled". Rydyn ni hefyd wedi sylwi bod llawer o 'brynu nawr, talu yn hwyrach' sy'n cael effaith, ac ymhen dim amser, mae gwariant misol pobl wedi cynyddu ond dydyn nhw ddim yn sylweddoli."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 3, Aberconwy

"Byddwn i'n dweud, cyn y pandemig, mai dyled defnyddwyd oedd y brif broblem. Yn y pandemig, roedd yr ymholiadau'n ymwneud ychydig yn fwy â chostau sefydlog fel y rhent, y dreth gyngor, y biliau tanwydd. Y costau sefydlog hynny na allwch ddianc oddi wrthynt; yn hytrach na benthyciadau."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

Dywedodd nifer o gyfranogwyr fod dyled tanwydd yn arbennig o broblemus am amrywiaeth o resymau. Rhybuddiodd rhai cyfranogwyr am yr effaith y bydd eu cleientiaid yn ei theimlo yn hyn o beth dros y misoedd nesaf.

"Rwy'n tybio mai un o'r prif heriau gyda dyled tanwydd, drwy'r pandemig cyfan, oedd y diffyg o ran asiantau a oedd ar gael i ymdrin ag unrhyw faterion ynni. Felly mae wedi creu dyled lle y gellid bod wedi osgoi hyn mewn gwirionedd."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 1, Ynys Môn

"O ran dyled ynni, rwy'n credu mai ceisiadau ymddiriedolaeth oedd yr ymholiad mwyaf cyffredin . . . Cawsom sefyllfa yn y pandemig lle'r oedd Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain wedi'i llethu gyda chynifer o geisiadau, bu'n rhaid iddi gau'n gynnar am y tro cyntaf erioed, oherwydd ei bod wedi defnyddio ei holl adnoddau. Mae wedi tynhau ei meini prawf cymhwysedd yn wirioneddol nawr."

Grwpiau sy'n ceisio cyngor ar ddyledion

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi mynegi unrhyw farn arbennig o gryf ynghylch a oedd dyled wedi effeithio'n anghymesur ar ddemograffeg benodol yn ystod y pandemig. Eglurodd rhai cyfranogwyr, fodd bynnag, eu bod wedi cyngori nifer o bobl y mae'n annhebygol y bydden nhw wedi wynebu trafferthion ariannol cyn y pandemig. Dywedodd rhai bod y grwpiau hyn yn 'ddosbarth canol' neu'n 'deuluoedd niwclear'.

"Roedd pobl na fyddent fel arfer yn defnyddio ein gwasanaethau yn dod atom, ac roedd hynny'n eithaf cyffredinol o ran y math o gwsmer, yn fy marn i, o bobl ifanc i bobl a oedd, os gaf i ddweud, yn eithaf dosbarth canol."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

"Rwy'n credu mai'r unig beth rydyn ni wedi'i weld yn ôl pob tebyg yw cynnydd mewn pobl na fyddent fel arfer yn perthyn i'r math o gategori o bobl a fyddai'n gofyn am gyngor ar ddyledion. Felly fel y teulu niwclear nodweddiadol, teuluoedd gyda dau riant, y ddau yn gweithio, gyda phlant, a oedd yn goroesi cyn y pandemig ac a allai dalu eu biliau, er efallai nad oedd ganddynt lawer dros ben ar ddiwedd y mis. Ond os oedd un neu'r ddau ohonynt wedi cael toriad cyflog 20 y cant, byddent yn mynd i argyfwng."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

"Pan oeddwn i'n rhoi cyngor cyffredinol, roedd llawer o'm cleientiaid yn cael budd-daliadau, ond pan ddechreuais ar fy rôl yn ymdrin â dyled, roeddwn i'n gweld llawer mwy ar gontractau gwaith dim oriau. Cymysgedd o weithio, cymysgedd o Gredyd Cynhwysol gyda dyledion. Felly byddwn i'n dweud nad oedd llawer o fy nghleientiaid yn dibynnu ar fudd-daliadau. Mae ganddynt ddwy ffynhonnell incwm."

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

Y storm berffaith

Rhannodd llawer o gyfranogwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws bryderon nad yw gwir effaith y pandemig ar y rhai sy'n profi dyled neu galedi ariannol wedi digwydd eto. Dywedwyd bod y sefyllfa debygol dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf yn "storm berffaith" neu'n "tswnami".

"Rwy'n credu dros y misoedd nesaf, gyda'r cynllun ffyrlo a'r cynllun hunangyflogaeth yn dod i ben, Yswiriant Gwladol yn codi, biliau tanwydd yn codi, a'r ffaith bod yr ymgodiad Credyd Cynhwysol wedi dod i ben, rwy'n credu bod y tswnami yn dod. Does dim syniad gen i pryd y bydd yn dod."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

"Dw i ddim yn credu ein bod ni wedi gweld gwahaniaeth enfawr eto os ydw i'n bod yn onest iawn. Yn gyffredinol, y tro diwethaf i ni ddelio ag unrhyw beth fel hyn oedd 2008 ac ni welsom y gwahaniaeth yn 2008, fe ddaeth yn y blynyddoedd ar ôl hynny."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

Cyfeirio

Trafododd y cyfranogwyr yr heriau a'r cyfleoedd wrth gyfeirio pobl at wasanaethau arbenigol yn ystod y pandemig, a mynegwyd safbwyntiau cymysg ar draws y grwpiau ffocws. Trafododd rhai cyfranogwyr yr heriau o ran adnoddau sy'n wynebu rhai o'r sefydliadau y byddent fel arfer yn cyfeirio cleientiaid atynt. Esboniodd eraill, fodd bynnag, fod y pandemig wedi rhoi cyfle i ffurfio partneriaethau cryfach â sefydliadau, sydd wedi arwain at ddull mwy cyfannol o gefnogi cleientiaid.

"Os oes yn rhaid i ni gyfeirio'n allanol, efallai at [elusen ddigartrefedd], gallwn wneud hynny. Yr adborth dwi'n ei gael gan gleientiaid yw nad ydyn nhw'n gallu cysylltu â nhw o bryd i'w gilydd, neu weithiau maent yn aros yn hir iddynt alw nôl, ond mae'n debyg mai problem o ran galw a chyflenwad yw hynny o safbwynt [elusen ddigartrefedd] oherwydd bod llawer o bobl yn ceisio defnyddio ei gwasanaethau ar hyn o bryd."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

"Byddwn yn ychwanegu un peth hefyd o ran ein cleientiaid sy'n agored i niwed. Mae llawer ohonynt wedi colli eu rhwydweithiau cymorth o ddydd i ddydd. Roeddent yn dod atom ac weithiau roeddent am gael mwy ag y gallem ei roi oherwydd roeddent wedi colli'r cymorth wyneb yn wyneb. Felly, buom yn siarad â llawer o bobl a oedd yng nghanol argyfwng iechyd meddwl. Nid oedd mor hawdd cyfeirio at rywun a allai roi cefnogaeth wyneb yn wyneb iddyn nhw, oherwydd nid oedd hynny ar gael."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 2, Caerdydd

Esboniodd rhai cyfranogwyr a oedd yn ymwneud â'r gwaith o gyfeirio cleientiaid at gymorth iechyd meddwl y bu'n rhaid iddyn nhw wneud dyfarniad yn aml o ran a oedd y cleient yn gallu cael mynediad at wasanaeth ac yn hyderus wrth wneud hynny. Mae hyn wedi bod yn anodd yn absenoldeb ymgysylltu wyneb yn wyneb, oherwydd yr anallu i ddarllen arwyddion di-eiriau.

"O safbwynt iechyd meddwl, roedd ein cyfeiriadau'n tueddu i leihau, oherwydd nad oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau hynny yn gallu cyrraedd y lleoliad hwnnw am ei fod ar gau. Felly cafwyd lleihad, ond mae bellach wedi dechrau cynyddu ychydig . . . efallai oherwydd ein bod wedi dychwelyd i'r lleoliadau . . . ond byddwn i'n dweud, os oes problem gorbryder ac iselder, na fydddech chi o reidrwydd yn ateb y ffôn i rif anhysbys."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd y cyfranogwyr eu barn ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn arbennig, cyfeiriodd sawl unigolyn at y Gronfa Cymorth Dewisol fel menter a oedd wedi bod yn amhrisiadwy i nifer o'i gleientiaid.

"Dwi'n meddwl eu bod nhw'n gwneud yn eitha' da. Pethau fel y Gronfa Cymorth Dewisol - mae hon wedi bod yn dda iawn. Mae'r cyfnod rhybudd o chwe mis yr oedd yn rhaid i landlordiaid roi i'w tenantiaid, yn amlwg, wedi bod yn ddefnyddiol iawn hefyd."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

"Rwy'n gweithio gyda chydweithwyr dros y bont ac o'i gymharu â'r hyn maen nhw wedi'i gael . . . Rwy'n credu ein bod ni wedi gwneud yn weddol dda o ran y Gronfa Cymorth Dewisol, a oedd yn ymestyn swm y taliadau cymorth brys a oedd ar gael yn ystod COVID-19. Nid yw'r rhain hyd yn oed ar gael yno."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

I'r gwrthwyneb, er bod rhai grwpiau ffocws yn croesawu nod y Benthyciad Arbed Tenantiaeth, sydd bellach yn Grant Arbed Tenantiaeth, roeddent yn feirniadol o'r meini prawf cymhwysedd llym.

"Fe wnaethon nhw gyflwyno'r Benthyciad Arbed Tenantiaeth neu'r Grant Arbed Tenantiaeth. Rwy'n credu bod hynny'n llawer rhy gyfyngol. Dwi ddim yn

adnabod bron neb sydd wedi gwneud cais llwyddiannus . . . oherwydd y meini prawf y mae'n rhaid i chi eu bodloni i fod yn gymwys. Felly mae ar gael, ac unwaith eto, efallai bod gennych chi'r ystadegau yn ei gylch, ond dwi ddim yn credu bod llawer o bobl yn gwneud cais am y grantiau hyn mewn gwirionedd. . . Rwy'n gwybod pan dwi'n mynd drwy'r meini prawf gyda chleientiaid, prin yw'r adegau pan fydd rhywun yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 1, Bro Morgannwg

Heriau yn y dyfodol

Roedd y cyfranogwyr ym mhob cyfarfod grŵp ffocws ar-lein yn pendroni ynghylch y mathau o heriau y mae'n debygol y bydd pobl yn eu hwynebu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, a thrafodwyd llawer ohonynt.

"Rwy'n meddwl tybed a fydd benthyca hanesyddol, dros y tri neu'r chwe mis nesaf, yn dod i'r amlwg, ac efallai ein bod ni'n eistedd ar ben problemau dyled sy'n cael eu cuddio."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 3, Merthyr Tudful

"Yr hyn sy'n fy mhoeni'n fawr yw cynnydd posibl o 30 y cant mewn prisiau nwy a thrydan yn 2022. Mae hynny'n mynd i wthio pobl i dlodi ar lefel oes Fictoria. Ac mae'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, mae llai o gyflenwyr tanwydd oherwydd eu bod yn mynd i'r wal, ac mae'r cap ar bris ynni wedi'i godi. . . Rwy'n poeni'n fawr am y flwyddyn nesaf."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

Esboniodd y cyfranogwyr, er mwyn ateb y galw am gyngor ar ddyledion a ragwelir yn y dyfodol, ei bod yn bwysig bod asiantaethau cynghori yn cael eu hariannu'n ddigonol a bod profiad cynghorwyr presennol yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

"Rwy'n dyfalu mai'r mater arall o'n rhan ni mewn gwirionedd yw cyllid ar gyfer cyngor ar ddyledion . . . mae'r gallu i ganiatáu i bobl gael gafael ar gyngor yn gyflym ac yn rhwydd yn cael ei bennu mewn gwirionedd gan y ddarpariaeth gyngor, ac nid cyngor ar ddyled yn unig, sydd ar gael ym mhob adran."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws ar-lein 1, Ynys Môn

". . . caiff y prosiectau cyngor ar ynni eu hariannu am gyfnod o 6 mis mewn gwirionedd, felly maen nhw bron yn dymhorol. Mae'n syniad annoeth rhoi terfyn

arnynt a cholli profiad cynghorwyr da sy'n gwybod y ffordd orau o gefnogi cleientiaid. Rwyf fi'n wynebu sefyllfa pan ddaw 31 Mawrth, byddaf yn cael hysbysiad diswyddo. Mae'n dibynnu ar a fydd rhyw fath arall o brosiect y gellid ei ddefnyddio i'n had-dalu o ran cyfrwng arall. Os ydw i'n gorfod gadael y rôl, bydd llawer o brofiad, cysylltiadau a gwybodaeth yn mynd â fi."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf

Trafododd nifer o gyfranogwyr y cynnydd graddol o ran beiliaid yn gweithredu, a rhannodd rhai cyfranogwyr eu pryderon ynghylch y ffordd y cymerir camau o'r fath. Mynegodd rhai cyfranogwyr bryder hefyd ynglŷn â natur frys y camau a gymerwyd gan gynghorau ynghylch ôl-ddyledion y dreth gyngor, a gofynnwyd a allai Llywodraeth Cymru annog cynghorau i fod yn fwy amyneddgar.

"Mae'r cyngor yn mynd ati'n gyflym i sicrhau gorchmynion dyled ac yn cyfarwyddo beiliaid o fewn dim amser... mae hyn yn anecdotaidd, ond dylai beiliaid gadw at ganllawiau penodol, ond nid ydynt yn gwneud hynny yn ymarferol."

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws ar-lein 4, Rhondda Cynon Taf